Cynnwys Pobl

Gwerthusiad mewnol o gymorth seilwaith i annog pobl i gymryd rhan mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru

gan Carol Porteous a David M Rea, gyda Bryan Collis[1]

Crynodeb Lleyg

[1] Mae Carol Porteous yn Ymchwilydd Cyswllt yn yr Ysgol Gwyddor Iechyd, Prifysgol Abertawe, mae Dr David M Rea a Dr Bryan Collis yn Gyfarwyddwyr Cyswllt Cynnwys Pobl / Involving People.

Cydnabod

Hoffem gydnabod yr amser a'r egni a roddwyd gan y pobl sydd wedi ymateb i'n hymholiadau ac sydd wedi cymryd rhan yn y gwerthusiad hwn. Yn fwyaf arbennig, hoffem ddiolch i aelodau'r tîm gwerthuso: Jan Davies, Martyn Hooper, Alan Meudell ac Eiddwen Thomas.

Er bod eu cyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy i ni, mae'r awduron yn derbyn cyfrifoldeb am gynnwys yr adroddiad hwn.

Diolch hefyd i Natalie Simon am ei sylwadau ar fersiwn gynharach.

Erbyn Chwefror 2009 yr oedd gan y rhwydwaith 173 o aelodau, ac o'r rhain roedd 118 yn gleifion, a oedd yn llawer uwch na'r targed.

Crynodeb Lleyg

Cefndir

Sefydlwyd Cynnwys Pobl yn 2006 fel rhan o Gydweithrediad Ymchwil Clinigol Cymru (CRC-Cymru), i alluogi cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn ymchwil i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Nod y Gwerthusiad

Cynhaliwyd y gwerthusiad yn ystod 2008 i asesu a oedd, ac i ba raddau, yr oedd Cynnwys Pobl wedi cyflawni'i nodau hyd yma a sut y'u cyflawnwyd hwy. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i wneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Sut y cynhaliwyd y gwerthusiad

Cafodd tîm o bedwar o gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth eu recriwtio o rwydwaith Cynnwys Pobl. Bu'r tîm yma cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, dylunio a chynnal y gwerthusiad. Buont hefyd yn edrych ar gynlluniau gwaith ac adroddiadau gweithgarwch Cynnwys Pobl.

Gofynnwyd i gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth ar rwydwaith Cynnwys Pobl a hoffent gael eu cyfweld ac ymatebodd 24 o bobl i'r gwahoddiad. O'r 24 hynny, dewiswyd wyth i gael eu cyfweld a gwahoddwyd 12 i drafod y materion dan sylw mewn grŵp ffocws.

Gofynnwyd i 100 o bobl ar restr bostio CRC-Cymru gwblhau holiadur ar y we. Cwblhaodd 20 o bobl yr holiadur ac o'r rhain, cyfwelwyd chwech ohonynt.

Y Canlyniadau

Yr oedd Cynnwys Pobl wedi cyrraedd ei darged o 50 o gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth ar y rhwydwaith erbyn Rhagfyr 2008. Erbyn Chwefror 2009 yr oedd gan y rhwydwaith 173 o aelodau, ac o'r rhain roedd 118 yn gleifion, a oedd yn llawer uwch na'r targed.

Cafwyd cyfanswm o 168 o gyfeiriadau at weithgareddau cynnwys, gyda 60 wedi'u dethol i gymryd rhan mewn prosiectau a ariannwyd. Mae pobl wedi'u cyfeirio at 32 o weithgareddau ymchwil.

Mae'r cyfweliadau â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth neu ofalwyr yn awgrymu bod amrywiaeth o rwystrau, cymhellion a chyfleoedd yn bodoli i gleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn ymchwil. Roedd y rhwystrau a drafodwyd yn cynnwys defnydd o jargon, ac ystyriaethau ymarferol megis dod o hyd i ofalwyr a sicrhau trafnidiaeth i gyfarfodydd. Mae'r buddiannau sy'n deillio o gymryd rhan yn cynnwys cymhelliad i wella gwasanaethau.

Yr oedd gan bob aelod o'r rhwydwaith a gyfwelwyd ddisgwyliadau gwahanol o'u cyfraniad a'r hyn yr oeddent yn



gobeithio'i gael drwy gymryd rhan. Yr oedd ganddynt hefyd safbwyntiau gwahanol ynghylch y rhyngweithio rhyngddynt a'r ymchwilwyr. Mae ystyriaethau sy'n ymwneud â disgwyliadau a rhyngweithio'n seiliedig ar deimladau cryfion bod cyfrifioldebau a rolau sydd angen eu cyflawni gan ymchwilwyr a chyrff cyllido. Ar adeg y gwerthusiad nododd aelodau'r rhwydwaith y cyfleodd prin oedd ar gael i gymryd rhan a hyd yn oed pan oedd cyfleoedd yn codi, yr oeddent yn teimlo bod y cynnydd a wnaethpwyd yn araf yn aml. Yr oedd cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn teimlo bod y strwythurau a ddefnyddir gan Cynnwys Pobl yn gymhleth a dryslyd a bod cyd-destun yr ymchwil yn anodd ei ddeall. Mae hyn yn bwysig oherwydd os am gael perthynas ystyrlon mewn prosiectau ymchwil, rhaid i aelodau'r rhwydwaith ddeall strwythur yr ymchwil a beth yw cysylltiad y gwahanol elfennau â'i gilydd.

Er gwaethaf yr anawsterau hyn wrth geisio deall strwythur a chyd-destun yr ymchwil, yr oedd aelodau'r rhwydwaith yn bositif o ran parhau â'u cysylltiad ac yr oeddent yn credu bod Cynnwys Pobl yn gwneud yr hyn yr oedd yn anelu at ei gyflawni.

Nododd yr ymchwilwyr hefyd y rhwystrau a'r buddiannau sydd ynghlwm wrth gynnwys cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth mewn ymchwil. Cyllidebau cyfyngedig sydd gan ymchwilwyr ac yr oeddent yn amau gwerth am arian cynnwys pobl mewn ymchwil. Yr oedd teimlad hefyd bod cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yno er mwyn eu hagenda eu hunain ac nid er budd yr ymchwil. Mae hyn yn deillio o'r rhyngweithio rhwng ymchwilwyr a defnyddwyr gwasanaeth a disgwyliadau'r ddau. Yr oedd ymchwilwyr yn teimlo hefyd bod yn rhaid iddynt ymateb i ddisgwyliadau cleifion, gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth a bod hynny'n gallu bod yn anodd.

Dywedodd rhai ymchwilwyr ei bod yn fuddiol cynnwys pobl gan ei fod yn gwneud iddynt edrych ar ystyriaethau o fewn y prosiectau o safbwynt gwahanol.

Casgliad

I gloi, mae Cynnwys Pobl wedi cyrraedd ei dargedau gwaith, ac mae'r ymchwilwyr a'r cleifion, y defnyddwyr gwasanaeth a'r gofalwyr a gymerodd ran yn dweud bod deilliannau buddiol wedi dod o'r cysylltiad. Yr oedd pob ochr, fodd bynnag, yn profi rhwystrau sylweddol, a bydd yn rhaid rhoi sylw iddynt os yw'r cysylltiad am fod yn fwy effeithiol.

Argymhellion

Trafodwyd y canfyddiadau a'r argymhellion rhagarweiniol â Grŵp Cynghori Cynnwys Pobl ym mis Mawrth 2009 a gwnaethpwyd argymhellion pellach o ganlyniad i'r trafodaethau hyn. Yr oedd yr argymhellion yn cynnwys:

- Hyfforddiant ar y cyd ar gyfer ymchwilwyr ac aelodau'r rhwydwaith, a fydd yn gyfle i unigolion rannu disgwyliadau a chymhellion.
- Gan fod ymchwilwyr ar adegau'n amau gwerth a phwrpas cynnwys pobl, mae angen i Gynnwys Pobl feithrin ei berthynas â rhwydweithiau ymchwil.
- Cafodd gweithdrefnau recriwtio newydd ar gyfer y Grŵp Cynghori eu hawgrymu er mwyn rhoi sylw i bryderon ymchwilwyr. Cafodd yr argymhelliad hwn ei weithredu mewn pryd ar gyfer recriwtio aelodau newydd o'r Grŵp Cynghori yn ystod haf 2009.
- Bydd Cynnwys Pobl yn cynnal sesiynau cwrdd a chyfarch bob chwarter ar gyfer aelodau'r rhwydwaith sydd newydd eu recriwtio i'w cynorthwyo i ddeall diben Cynnwys Pobl, y strwythur ymchwil ac ym mha ffordd y mae gwahanol elfennau'r strwythur yn gysylltiedig.
- Mae angen monitro'r hyfforddiant y mae aelodau'r rhwydwaith yn ei dderbyn i sicrhau eu bod wedi'u paratoi ar gyfer eu tasg.
- Mae angen dyfeisio gweithdrefn i roi adborth i aelodau'r rhwydwaith ar eu cyfraniad.
- Dylid trefnu digwyddiad i gydnabod amser ac ymdrech aelodau rhwydwaith Cynnwys Pobl.

Mae'r adroddiad gwerthuso llawn ar gael ar y dudalen 'Amdanom ni' ar wefan Cynnwys Pobl yn: www.involvingpeople.org.uk

Neu trwy cysylltu â Dr David M Rea, Canolfan Economeg Iechyd ac Astudiaethau Polisi, Ysgol Gwyddor Iechyd, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PP

http://www.healthscience.swan.ac.uk/

ffôn (0044) 01792 295314
ffacs (0044) 01792 295643
d.m.rea@swansea.ac.uk